

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Filfeddyg (OCVO) ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

8 Mawrth 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 (“Rheoliadau 2023”) yn dod â'r rheolaethau swyddogol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid wrth eu cludo o dan yr un gyfundrefn â rheolaethau swyddogol eraill ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid. Mae Rheoliadau 2023 hefyd yn egluro rhwymedigaethau cludwyr a cheidwaid anifeiliaid, yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar drefnwyr teithiau mewn perthynas â pharatoi a chwblhau cofnodion teithiau ac yn egluro'r broses ar gyfer cymeradwyo cofnodion teithiau. Mae Rheoliadau 2023 yn gwneud hyn drwy ddiwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig (EUR 2005/1) a thrwy wneud darpariaeth at ddibenion Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (EUR 2017/625).

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu diogelu anifeiliaid yn ystod eu cludo o fewn Prydain Fawr, o Brydain Fawr i drydydd gwledydd, ac ar ôl cyrraedd o'r trydydd gwledydd wedi'i nodi yng nghyfraith yr UE a ddargedwir fel a ganlyn:

- Rheoliad y Cyngor a Ddargedwir (EC) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid yn ystod eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig (“Rheoliad 1/2005”)
- Rheoliad y Cyngor a Ddargedwir (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion (“yr OCR”).

Mae llawer o'r darpariaethau yn yr OCR eisoes yn gymwys i reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol a gyflawnir gan awdurdodau cymwys mewn perthynas â rheolau lles anifeiliaid wrth eu cludo. Fodd bynnag, gwnaeth Erthygl 154 o'r OCR yn wreiddiol ohirio'r broses o gyflwyno'r darpariaethau penodol yn Erthygl 21 o'r OCR sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol ar gyfer lles anifeiliaid wrth eu cludo a fwriadwyd i ddisodli'r darpariaethau ar reolaethau swyddogol yn Rheoliad 1/2005 i ddyddiad stop pell o 14 Rhagfyr 2022. Mae Erthygl 154(2) o'r fersiwn a ddargedwir o'r OCR yn darparu i'r darpariaethau hyn gael eu cychwyn drwy reoliadau ar ddyddiad y mae'r Awdurdod Priodol yn ei ddewis.

Mae Rheoliadau 2023 yn cychwyn gweddill y darpariaethau yn Erthygl 21 o'r OCR ar reolaethau swyddogol mewn perthynas â rheolau lles anifeiliaid wrth eu cludo yng Nghymru ar 6 Ebrill 2023.

Maent hefyd yn diwygio Atodiad II i Reoliad 1/2005 sy'n ymdrin â pharatoi a chwblhau cofnodion teithiau sy'n ofynnol ar gyfer teithiau penodol o dan Erthygl 5(4) o'r Rheoliad hwnnw.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1047 (Cy.105)).

Gwneir Rheoliadau 2023 o dan bwerau a roddir gan Erthyglau 30(1) a 30a(8) o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 ac Erthyglau 144(6) a 154(2) o'r OCR. Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cychwyn darpariaethau yn Erthygl 21 o'r OCR: Bydd cychwyn gweddill y darpariaethau yn Erthygl 21 o'r OCR yn sicrhau cyfundrefn gyson o reolaethau swyddogol ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yn lle'r gyfundrefn ddeuol bresennol, oherwydd y bydd y rheolaethau swyddogol i ddilysu a monitro cydymffurfiaeth â gofynion lles anifeiliaid wrth eu cludo o fewn yr un gyfundrefn â rheolaethau swyddogol eraill ar gyfer bwyd-amaeth. Bydd y rheolaethau cydymffurfio cyfredol a gynhelir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar ran Gweinidogion Cymru, a chamau gweithredu y gellir eu cymryd pan fo diffyg cydymffurfiaeth yn cael ei ganfod, yn cael eu cynnal.

Diwygiadau i Atodiad II i Reoliad 1/2005: Mae'r diwygiadau'n egluro rhwymedigaethau cludwyr a cheidwaid anifeiliaid, yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar drefnwyr teithiau mewn perthynas â pharatoi a chwblhau cofnodion teithiau ac yn egluro'r broses ar gyfer cymeradwyo cofnodion teithiau. Bydd gan y trefnydd gyfrifoldeb cyffredinol am baratoi a chwblhau cofnod y daith. Yn benodol, cyfrifoldeb y trefnydd fydd cyflwyno cofnodion teithiau i APHA i'w cymeradwyo ar gyfer teithiau allforio, mewnforio a mynd drwyddynt o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y dyddiad ymadael arfaethedig. Bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cofnod taith i'r awdurdod cymwys yn cael ei egluro. Bydd yn ofynnol i'r trefnydd sicrhau bod copi o gofnod y daith, wedi'i gwblhau'n gywir, yn cael ei ddychwelyd i APHA ddim hwyrach nag un mis i'r daith gael ei chwblhau ac, os nad yw cofnod y daith yn cael ei gynhyrchu drwy ddulliau electronig, cedwir copi am o leiaf dair blynedd. Bydd cyfrifoldebau priodol ceidwaid anifeiliaid mewn manau ymadael, manau mynd drwyddynt a chyrchfannau a phersonau sy'n cludo'r anifeiliaid mewn perthynas â chwblhau cofnodion teithiau hefyd yn cael eu hegluro.

Diwygiadau i Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 (WATO): Gwneir diwygiadau canlyniadol i WATO ar gyfer gweinyddu a gorfodi'r OCR ynghylch rhwymedigaethau ar y gwiriadau sydd i'w cynnal ar deithiau rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd etc sy'n ymwneud â lles anifeiliaid wrth eu cludo.

5. Ymgynghori

Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau hyn. Mae Erthygl 30a(9) o Reoliad (EC) Rhif 1/2005 ac Erthygl 144(7) o'r OCR yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyrff neu'r personau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod cynrychioli'r buddiannau y mae'n

debygol y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt yn sylweddol a'r cyrff neu'r personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Cyhoeddwyd ymgynghoriad naw wythnos, wedi'i dargedu ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a gofynnwyd am farn gan y rhai a allai gael eu heffeithio gan y cynigion, neu sydd â buddiant ynddynt. Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, sefydliadau anllywodraethol ym maes lles anifeiliaid a chyrrff gorfodi. Cytunodd y mwyafrif (71%) o'r ymatebwyr â'r cynigion i gychwyn gweddill y darpariaethau ar reolaethau swyddogol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid wrth eu cludo cyn gynted â phosibl. Roedd y mwyafrif (71%) o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig i ddiweddarau Atodiad II i Reoliad 1/2005 i roi eglurder ar y gwiriadau cydymffurfio a gynhelir gan APHA. Gwnaeth y mwyafrif o'r ymatebwyr gytuno (86%) neu gytuno'n gryf (14%) â'r cynnig i ymestyn rôl y trefnydd i'w gwneud yn gyfrifol am gwblhau cofnod y daith drwy gydol y broses. Rhannwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad â'r ymatebwyr ar 24 Ionawr. Ni chyhoeddwyd y rhain gan ei fod yn ymgynghoriad wedi'i dargedu ar gyfer rhanddeiliaid.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Gan fod Rheoliadau 2023 yn gwneud diwygiadau technegol ac nid yw'r diwygiadau yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar is-ddeddfwriaeth.